**Diweddariad ar y cynnydd mewn perthynas ag adroddiad 'Law and Justice in Wales: Some Issues for the Next Assembly' gan y Grŵp Rhanddeiliaid Cyfiawnder**

| **Argymhellion Grŵp y Rhanddeiliaid Cyfiawnder** | **Diweddariad ar y Cynnydd gan Lywodraeth Cymru** |
|---|---|
| **1 –** The Welsh Government should consider how it can take a greater role in ensuring the effective and comprehensive promotion of the law affecting Wales, including access to the law of Wales. | Mae'r adroddiad yn cydnabod gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales.* Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ddatblygu fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016). Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol ymateb dros dro i Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith ar 12 Rhagfyr 2016[1] a gwnaeth Ddatganiad Llafar i'r Cynulliad y diwrnod canlynol[2]. |
| **2 –** The Welsh Government should seek consequential funding from the UK Government to support the publication, promotion and accessibility of Welsh laws. | Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw sicrhau bod cyfraith statud ar gael i'r cyhoedd ei gweld, er nad oes ganddi ddyletswydd statudol i'w chyhoeddi (boed hynny'n ddi-dâl neu ar-lein). Argraffydd y Frenhines ar ran y Goron sy'n gyfrifol am gyhoeddi deddfwriaeth wrth iddi gael ei gwneud, a'r Archifau Cenedlaethol sy'n ymgymryd â'r gwaith. Gan hynny, nid yw'r mater o gyllid canlyniadol yn codi. |
| **3 –** The Welsh Government should further engage with the administrators of the legislation.gov.uk website to further develop the Cyfraith Cymru/Law Wales website. | Mae gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys dolenni i wefan legislation.gov.uk. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir gwella'r wefan ar hyn o bryd, a hynny'n rhannol fel ymateb i adroddiad *Form and Accessibility* Comisiwn y Gyfraith. Gweithredir ar yr argymhelliad hwn drwy'r gwaith hwnnw. |
| **4** – The Welsh Government should seek consequential funding from the UK Government to support the publication, | Nid Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyhoeddi a hyrwyddo testunau a deunyddiau cyfreithiol, nac am eu hygyrchedd. Gan hynny, nid yw'r mater o gyllid canlyniadol yn codi. |

[1] Mae copi ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith, ynghyd ag ymateb y Cadeirydd (http://www.lawcom.gov.uk/project/the-form-and-accessibility-of-the-law-applicable-in-wales/)

[2] 'Codau Cyfraith Cymru' – gweler Cofnod y Trafodion sydd i'w gael yn http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4012&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#449186

| | |
|---|---|
| promotion and accessibility of legal texts and materials that address the law in Wales. | |
| **5** – The Welsh Government should undertake research on how codification has operated in practice in common law jurisdictions, including countries such as Canada, New Zealand and Australia. | Gweithredir ar yr argymhelliad hwn drwy ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad *Form and Accessibility* Comisiwn y Gyfraith, sy'n gwneud cyfres o argymhellion yn ymwneud â chodeiddio cyfraith Cymru. Mae barn Llywodraeth Cymru yn cael ei llywio gan yr ymarfer mewn gwledydd eraill, gan gynnwys, yn benodol, yn y rheini y sonnir amdanynt yn yr argymhelliad hwn. |
| **6** – The Welsh Government should engage with law schools and training bodies to support the development of Welsh law in education and training programmes for law students, practitioners and the judiciary. | Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ysgolion y gyfraith yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at secondiadau a lleoliadau gwaith rhwng ysgolion y gyfraith a Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a chynhadledd y gyfraith ar y cyd rhwng y Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a myfyrwyr o ysgolion y gyfraith ym mis Mawrth 2006.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff cyfreithiol proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i amgylchiadau Cymru wrth ddiwygio addysg gyfreithiol broffesiynol a chymwysterau cyfreithwyr a'r modd y cânt eu rheoleiddio. |
| 7 - The Welsh Government should be proactive in developing a jurisdictional solution to the accommodation of Welsh law and the distinct needs of Wales, without creating barriers for the operation of justice or the ability of practitioners to continue to work across England and Wales. | Drwy gydol hynt Bil Cymru drwy Senedd y Deyrnas Unedig, bu Llywodraeth Cymru yn dadlau dros sefydlu comisiwn statudol ar gyfiawnder yng Nghymru i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU yn y Senedd y byddai'n sefydlu pwyllgor anstatudol ar gyfiawnder yng Nghymru, ac y byddai ei aelodau a'i gylch gorchwyl yn cael eu cyhoeddi yn 2017. |
| **8** – The Welsh Government should consider whether there would be benefits in adopting an inquisitorial, rather than an adversarial, | Mae ymchwiliadau wedi datgelu bod dull ymchwiliol yn cael ei ddefnyddio ym mhrosesau ac achosion tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cael eu gweithredu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru Llywodraeth Cymru a thribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru sy'n |

| | |
|---|---|
| approach to the administration of justice in any of the devolved tribunals it is responsible for administering. | cael eu gweithredu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae gan arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cael eu gweithredu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru yr hyblygrwydd i ddefnyddio dull ymchwiliol lle y bo hynny o fudd yn achosion eu tribiwnlysoedd. |
| **9** – The Welsh Government should ensure there is a consistent and structured approach to engagement with key stakeholders involved in the administration of justice, including legal practitioners, the judiciary and the Law Commission. | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhwydwaith eang o'r uwch-farnwriaeth ac uwch-swyddogion yn y sectorau cyfiawnder a chyfreithiol i ddylanwadu ar y modd y caiff cyfiawnder ei datblygu a'i chyflawni yng Nghymru. Yr amcan yw sicrhau bod diwygiadau Llywodraeth y DU i'r sectorau cyfiawnder a chyfraith yn ystyried anghenion pobl Cymru yn llawn, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, y corff cynyddol o gyfraith ddatganoledig Cymru a materion eraill sy'n effeithio ar gael mynediad at gyfiawnder yng Nghymru. |
| **10** – The Welsh Government should consider establishing a Justice Stakeholder Group and bringing it together at least once or twice a year for a collective review of developments. | Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yna achos dros sefydlu grŵp o randdeiliaid yn y sectorau cyfiawnder a chyfreithiol yng Nghymru fel fforwm annibynnol, sy'n trefnu ei hun. Gallai grŵp o'r fath dynnu ar brofiad y rheini sy'n cyflawni cyfiawnder, yn ogystal ag ymarferwyr ac academyddion yn y sectorau cyfiawnder a chyfraith, a gallai wneud cyfraniad gwerthfawr i'r pwyllgor ar gyfiawnder yng Nghymru sy'n cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU. |